COFNOD PENDERFYNIAD CYFARFOD O'R CABINET HYBRID A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR/RHITHWIR DDYDD MAWRTH 17 IONAWR 2022 AM 14:30

Presennol

Y Cynghorydd – HJ David – Arweinydd/Cadeirydd

Y Cynghorwyr

J Gebbie, J Spanswick
H Williams, JP Blundell, R Goode,

Swyddogion:

M Shephard, C Marchant, L Harvey, J Nightingale, K Watson, M Pitman, J Ellams, C Lord, R Keepins, A Thomas,

Ymddiheuro am absenoldeb

Y Cynghorydd N Farr

Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cafodd cofnodion cyfarfod blaenorol y Cabinet dyddiedig 13 Rhagfyr 2022 eu cymeradwyo.

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | **Penderfyniad Galw i Mewn gan y Cabinet: Adfywio Glannau Porthcawl: Dyraniad o Dir ym Mharc Griffin a Sandy Bay** |
| Penderfynwyd | Bod y Cabinet yn ystyried argymhelliad y Trosolwg Pwnc a Phwyllgor Craffu 2 fel yr amlinellir ym mharagraff 4.1 o'r adroddiad gan gytuno i ddarparu ymateb ysgrifenedig i'r Pwyllgor. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 17 Ionawr 2023 |
| Datgelu diddordebau personol neu niweidiol | Dim |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | **Caeau Chwarae Llangynwyd** |

| | |
|---|---|
| Penderfynwyd | Bod y Cabinet yn:-<br><br>(1) Nodi’r arian a gafodd ei ddyrannu eisoes o’r Gronfa Trosglwyddo Asedau Cymunedol (CAT) i Langynwyd Rangers BGC er mwyn cynorthwyo hunanreolaeth y ddau gae pêl-droed a mannau gwyrdd eraill yng Nghaeau Chwarae Llangynwyd. Cafodd hwn ei gytuno mewn egwyddor gan Grŵp Llywio Trosglwyddo Asedau Cymunedol a chafodd y manylion eu cynnwys ym mharagraff 9.1 o'r adroddiad (hy argymhellion yr adroddiad).<br>(2) Cymeradwyo'r achos busnes (cynlluniau busnes a chynlluniau ariannol) a gafodd ei gyflwyno gan Langynwyd Rangers BGC i gefnogi prydlesu'r Pafiliwn, dau gae pêl-droed, mannau gwyrdd eraill a maes parcio ar gaeau chwarae Llangynwyd, o dan raglen Trosglwyddo Asedau Cymunedol y Cyngor, drwy ddangos hyfywedd ariannol a chynaliadwyedd y prosiect.<br>(3) Cymeradwyo'r cais ariannol o dan y Gronfa Trosglwyddo Asedau Cymunedol a gafodd ei gyflwyno gan Langynwyd Rangers BGC i ymgymryd ag atgyweiriadau hanfodol i’r pafiliwn o £157,240.85 a fyddai'n ychwanegu at y pecyn arian llawn ar gyfer y trosglwyddiad o dan y Gronfa Trosglwyddo Asedau Cymunedol i £217,240.85. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 17 Ionawr 2023 |
| Datgelu diddordebau personol neu niweidiol | Dim |

| Teitl yr Adroddiad | **Monitro Cyllideb – 2022-23 – Chwarter 3 Rhagolygon Refeniw** |
|---|---|
| Penderfynwyd | Bod y Cabinet yn nodi’r sefyllfa Refeniw ar gyfer 2022-23. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 17 Ionawr 2023 |
| Datgelu diddordebau personol neu niweidiol | Dim |

| Teitl yr Adroddiad | **Diweddariad Rhaglen Gyfalaf – Adroddiad Chwarter 3 2022-23** |
|---|---|
| Penderfynwyd | Bod y Cabinet yn: |

| | |
|---|---|
| | • Nodi rhaglen Gyfalaf y Cyngor 2022-23 Diweddariad chwarter 3 i 31 Rhagfyr 2022 (Atodiad A i'r adroddiad)<br>• Cytuno bod y Rhaglen Gyfalaf ddiwygiedig (Atodiad B) yn cael ei chyflwyno i'r Cyngor i'w chymeradwyo<br>• Nodi'r Dangosyddion Darbodus rhagamcanol ac Eraill ar gyfer 2022-23 (Atodiad C). |
| Dyddiad y Penderfyniad | 17 Ionawr 2023 |
| Datgelu diddordebau personol neu niweidiol | Niweidiol – Y Cynghorydd JP Blundell |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | **Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2023-24 i 2026-27** |
| Penderfynwyd | Bod y Cabinet yn penderfynu cyflwyno ar gyfer ymgynghoriad gyda'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu cyllideb a datblygiad blynyddol 2023-24 y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2023-24 i 2026-27 fel y nodir yn yr adroddiad, cyn cyflwyno fersiwn derfynol i'r Cyngor ei chymeradwyo gan y Cyngor ym Mis Mawrth 2023. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 17 Ionawr 2023 |
| Datgelu diddordebau personol neu niweidiol | Dim |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | **Premiwm Treth y Cyngor - cartrefi gwag hirdymor ac ail gartrefi – Canlyniad yr ymgynghoriad** |
| Penderfynwyd | Bod y Cabinet yn argymell i'r Cyngor y dylid gweithredu premiwm treth cyngor ar gartrefi gwag hir dymor ac ail gartrefi, ar yr amod bod gwaith ychwanegol yn cael ei wneud ynghylch ail gartrefi a ffactorau ehangach. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 17 Ionawr 2023 |

| | |
|---|---|
| Datgelu diddordebau personol neu niweidiol | Niweidiol – Y Cynghorydd H Williams |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | **Asesiad a Chynllun Gweithredu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae i sicrhau Digon o gyfleoedd ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr** |
| Penderfynwyd | Bod y Cabinet yn:-<br><br>(1) Adolygu manylion dyletswydd statudol digonolrwydd cyfleoedd chwarae a chwmpas gwasanaethau a oedd yn cyfrannu at greu cymdeithas 'chwarae cyfeillgar' fel y cafodd eu nodi o fewn asesiad digonolrwydd cyfleoedd chwarae a darparu arsylwadau a sylwadau ar asesiad 2022-2025 a'r cynllun gweithredu a gafodd ei ddatblygu fel ymateb cychwynnol i ganfyddiadau'r asesiad.<br>(2) Cymeradwyo'r cynllun asesu digonolrwydd cyfleoedd chwarae a'i weithredu yn unol â'r gofynion cenedlaethol ynghylch digonolrwydd cyfleoedd chwarae. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 17 Ionawr 2023 |
| Datgelu diddordebau personol neu niweidiol | Dim |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | **Plant ar eu Pen eu Hunain sy'n Ceisio Lloches** |
| Penderfynwyd | Bod y Cabinet yn:<br><br>(1) Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles i addasu'r contract Llety â Chymorth presennol gyda Dewis er mwyn darparu gwasanaethau ychwanegol hyd at £213k yn unol â rheol 3.3.3 o Reolau Gweithdrefn Contract y Cyngor.<br><br>(1) Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog, Cyllid, Perfformiad a Newid ac Adran 151 Swyddog, a Phrif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Rheoleiddio i gytuno ar delerau ac ymrwymo i wasanaeth llety â chytundeb cymorth rhanbarthol (SLA) ac unrhyw gytundebau ategol, yn ôl y gofyn. |

| | |
|---|---|
| Dyddiad y Penderfyniad | 17 Ionawr 2023 |
| Datgelu diddordebau personol neu niweidiol | Dim |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | **Penodi Llywodraethwyr Awdurdodau Lleol** |
| Penderfynwyd | Bod y Cabinet yn cymeradwyo penodiadau manwl ym mharagraff 4.1 yr adroddiad. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 17 Ionawr 2023 |
| Datgelu diddordebau personol neu niweidiol | Dim |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | **Ymddygiad Afresymol/Polisi Achwynydd Blinderus** |
| Penderfynwyd | Bod y Cabinet yn cymeradwyo’r Polisi diwygiedig sydd ynghlwm ag Atodiad 1 i'r adroddiad. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 17 Ionawr 2023 |
| Datgelu diddordebau personol neu niweidiol | Dim |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | **Adroddiad Gwybodaeth i’w Nodi** |
| Penderfynwyd | Bod y Cabinet yn cydnabod cyhoeddiad y ddogfen sydd wedi’i rhestru yn yr adroddiad. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 17 Ionawr 2023 |
| Datgelu diddordebau personol neu niweidiol | Dim |